

TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

**YMATEB I DDOGFEN YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU: “TARO’R
CYDBWYSEDD IAWN: CYNIGION AR GYFER BIL Y GYMRAEG”**

Cyflwyniad

1. Fel corff barnwrol, ni fyddai’n briodol i’r Tribiwnlys leisio barn ar unrhyw fater o bolisi a drafodir yn y papur ymgynghori ar gyfer diwygio darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 nad ydynt yn ymwneud â swyddogaethau’r Tribiwnlys. Unig bwrpas yr ymateb hwn, felly, yw darparu gwybodaeth berthnasol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r cynigion hynny sy’n cyffwrdd â swyddogaethau’r Tribiwnlys, ar sail profiad y Tribiwnlys wrth arfer y swyddogaethau hynny.
2. Wrth wneud hynny, perthnasol yw nodi terfynau’r profiad hwnnw. Er bod y Mesur wedi’i basio yn 2011, ni chyrrhaeddwyd y cam allweddol o ddechrau cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio i gyrff cyhoeddus o dan y Mesur tan ddiwedd Medi 2015 ac, felly, ni ddaeth unrhyw un o Safonau’r Gymraeg yn weithredol tan diwedd Mawrth 2016. Golyga hynny na ddechreuodd y prosesau a allasai arwain at apêl i’r Tribiwnlys yn erbyn cynnwys Safon benodol mewn hysbysiad cydymffurfio tan Medi 2015. Ac ni ddaeth yn bosibl i gŵyn i Gomisiynydd y Gymraeg am fethiant i gydymffurfio â Safon, cam a allai, yn y pen draw, arwain at apêl i’r Tribiwnlys, gael ei wneud tan Mawrth 2016. O ganlyniad, ni dderbyniodd y Tribiwnlys ei achos cyntaf tan Ebrill 2016. Ers hynny, derbyniwyd 10 achos arall. Ond mae’n amlwg bod profiad y Tribiwnlys o ddelio gydag achosion o dan y Mesur yn dal yn gyfyngedig. Er bod y profiad hwnnw’n ddigon i alluogi’r Tribiwnlys i ddod i rai casgliadau bras am beirianwaith y Mesur, ac felly am gynigion y papur ymgynghori, ni fedrwn hawlio bod gennym eto brofiad helaeth iawn o weithredu’r Mesur.
3. Seiliwn ein sylwadau ar yr egwyddor y dylai peirianwaith y Mesur i osod a gorfodi safonau (gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer apelio i’r Tribiwnlys) gael ei farnu ar sail y meini prawf canlynol, sef:
 - Effeithlonrwydd (mewn perthynas â’r nod o hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg);
 - Eglurder;
 - Hygyrchedd;
 - Diamwysedd.
4. Gan fod y sylwadau hyn yn gyfyngedig i rai agweddau penodol o’r papur ymgynghori (gweler paragraff 1 uchod) nid ydynt yn ymateb i bob cwestiwn a holir yn y papur hwnnw

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn cyfateb yn fanwl hyd yn oed i'r cwestiynau hynny sy'n berthnasol i'n sylwadau. Ond rydym yn tynnu sylw, mewn perthynas â phob pwnc a drafodir isod, i'r cwestiynau hynny sy'n ymddangos i ni fel y rhai mwyaf perthnasol i'r pynciau hynny.

Trosglwyddo'r swyddogaeth o osod Safonau ar gyrff o'r Comisiynydd (neu'r Comisiwn) i Lywodraeth Cymru (Cwestiynau 24 a 28)

5. Nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw sylw ar egwyddor y newid arfaethedig hwn, sy'n seiliedig ar asesiad y Llywodraeth y byddai'r newid hwn yn helpu i symleiddio a chyflymu'r broses o osod Safonau (nôd yr ydym, wrth gwrs, yn ei gymeradwyo). Ni fyddai'r newid yn effeithio, mewn egwyddor, ar waith y Tribiwnlys. Byddai apêl o dan adran 58 o'r Mesur (gan gorff sy'n dadlau bod gofyniad iddo gydymffurfio â Safon yn afresymol neu'n anghymesur) yn dal i ddod i'r Tribiwnlys. Ond byddai apêl felly yn dod yn apêl yn erbyn penderfyniad y Llywodraeth, wrth gwrs, yn hytrach nag yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd (neu'r Comisiwn). Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, sydd yn darparu seilwaith gweinyddol y Tribiwnlys (o dan adran 127 o'r Mesur) a Gweinidogion Cymru, o dan adran 120, sydd, yn ffurfiol, yn penodi aelodau'r Tribiwnlys, er bod gweithdrefnau mewn lle er mwyn sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail cyngor annibynnol awdurdodol.
6. Mae'r posibilrwydd o orfod penderfynu achos lle bo'r Llywodraeth yn barti i'r achos hwnnw eisoes yn bodoli mewn perthynas ag apêlau sy'n codi allan o ymchwiliadau i gwynion bod y Llywodraeth wedi methu â chydymffurfio â Safon sy'n gymwys iddi. Ni chafwyd achos felly hyd yn hyn. Mae'n bosibl y byddai trosglwyddo i'r Llywodraeth y swyddogaeth o osod Safonau penodol ar gyrff yn cynyddu nifer yr achosion lle byddai'n rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu anghydfod y byddai'r Llywodraeth yn barti iddo. Er nad ydym yn rhagweld unrhyw bwysau'n cael ei roi ar y Tribiwnlys i ochri gyda'r Llywodraeth mewn achos felly, mae canfyddiad cyhoeddus o bwysigrwydd allweddol os am warchod hyder y cyhoedd ym mhenderfyniadau'r Tribiwnlys. Awgrymwn, felly, y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i ddarpariaethau ychwanegol yn y Mesur a fyddai'n amddiffyn a chryfhau annibyniaeth y Tribiwnlys.
7. Un newid a fyddai, wrth reswm, yn effeithio'n sylweddol ar waith y Tribiwnlys yw'r un sy'n cael ei grybwyll ym mharagraffau 197 i 199, sef y dylai Llywodraeth Cymru fedru gosod Safonau ar rai sectorau trwy reoliadau'n unig, gan hepgor yr angen i roi

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

hysbysiadau unigol i bob corff neu unigolyn o fewn y sector hwnnw. Enghraifft a roddir yw cynghorau cymuned, sydd yn sector sy'n cynnwys dros 700 o gyrff unigol.

8. Gallwn ddeall yn iawn y cymhlethdod gweinyddol o roi dros 700 o hysbysiadau cydymffurfio a faint mor atyniadol yw'r syniad o fedru cael, yn eu lle, un set o reoliadau a fyddai'n diffinio dyletswyddau ieithyddol pob cyngor mewn un ddogfen. Ond mae ein profiad ni o ystyried apêlau o dan adran 58 o'r Mesur wedi dangos i ni fantais y drefn bresennol, sef ei gwneud hi'n bosibl i deilwra dyletswyddau ieithyddol i ymateb yn effeithiol i broffeil ieithyddol ardal. Mae'r papur ymgynghori yn derbyn bod dadl gref dros gadw'r gallu i amrywio Safonau o fewn sector, er mwyn ymateb i wahaniaethau felly, a'r angen, os bydd y gallu hwnnw'n parhau, i warchod yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn gosod Safonau penodol ar wahanol gyrff. Ond nid yw'r papur yn esbonio sut y gellid cysoni hwylustod gweinyddol gyda'r angen am drefn sy'n adlewyrchu anghenion cyrff unigol. Rhaid i ni rybuddio, felly, yn erbyn diystyru pwysigrwydd elfen o amrywiaeth mewn Safonau er mwyn medru adlewyrchu amrywiaeth proffeil ieithyddol y rhan berthnasol o Gymru.

Gosod amodau ar ddyletswydd y Comisiwn i ystyried ymchwilio i gŵyn (Cwestiynau 30 a 32).

9. Nid yw'r syniad y dylai unigolyn sydd â chŵyn yn erbyn ymddygiad corff orfod (fel arfer) ddisbyddu unrhyw beirianwaith cwynion y corff ei hun cyn medru gofyn am gymorth swyddog fel ombwdsmon neu gomisiynydd yn un newydd. Dyna yw'r drefn yn achos Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol ag adran 6 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.
10. Ceir dadleuon dros ac yn erbyn trefn o'r fath. Os yw'n gweithio'n iawn, gall arwain at ddatrysiad cyflymach a llai costus i'r gŵyn. Ar y llaw arall, os na fydd y corff dan sylw'n delio gyda'r gŵyn yn deg ac yn effeithiol, gall orfodi'r achwynydd i fynd trwy'r broses honno, cyn mynd â chwyn i'r ombwdsmon neu gomisiynydd, oedi datrysiad effeithiol. Teimlwn hefyd, o brofiad aelodau'r Tribiwnlys o weithdrefnau cwynion mewn meysydd eraill, bod rhai pobl yn ei chael hi'n fwy anodd i gwyno'n effeithiol i gorff sydd eisoes wedi eu gadael i lawr nag i ofyn i swyddog annibynnol i gymryd y mater i fyny gyda'r corff hwnnw ar eu rhan.
11. Mater i Lywodraeth Cymru yw i gloriannu'r ystyriaethau hyn ac i ddod i gasgliad ynglŷn â manteision ac anfanteision y rheol arfaethedig. Ni fyddai rheol felly yn effeithio ar

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

swyddogaeth y Tribiwnlys – unwaith y byddai'r achwynydd wedi disbyddu trefn cwynion corff ac yn dewis mynd â'r mater at y Comisiwn ni fyddai natur y penderfyniadau y gallai'r Tribiwnlys orfod gwneud yn newid.

12. Nid yw'r un peth yn wir am y cynnig arall i osod hidlydd ar allu unigolion i gael cymorth y Comisiwn, sef na ddylai'r Comisiwn ymyrryd onibai fod y mater yn un “difrifol”.
13. Rhoddir enghreifftiau ym mharagraff 219 o'r papur ymgynghori o'r math o sefyllfaoedd a allai gael eu cyfrif yn rhai “difrifol”. Mae rhai ohonynt yn hawdd i'w diffinio a'u cymhwyso i achosion unigol, er enghraifft cŵyn am fethiant penodol yr oedd corff eisoes wedi bod yn euog ohono nifer o weithiau o'r blaen neu wedi ymrwymo, ar achlysur blaenorol, i beidio a'i ailadrodd. Ond ceir enghreifftiau eraill (gwrthod “hanfod” hawl i'r achwynydd neu nam sylweddol yn ymchwiliad mewnol y corff) a fyddai'n gofyn i'r Comisiwn arfer mesur helaeth o farn ar sail yr amgylchiadau unigol.
14. Pe bai'r Comisiwn yn gwrthod ymchwilio i fater ar y sail nad oedd y mater yn un digon “difrifol” (yn unol â phwy bynnag ddiffiniad y byddai'r Mesur yn ei fabwysiadu) mae'n debyg y byddai gan yr achwynydd yr un hawl ag sydd ganddo ar hyn o bryd o dan adran 103 i ofyn am adolygiad o benderfyniad y Comisiwn. Mae profiad y Tribiwnlys yn dangos bod achwynwyr, os ydynt yn teimlo nad yw eu cŵyn wedi cael chwarae teg gan y Comisiynydd, yn barod iawn i fynd â'r achos at y Tribiwnlys. Allan o'r 11 achos a ddaeth i'r Tribiwnlys hyd yma, bu 7 ohonynt yn geisiadau am adolygiad o dan adran 103. O safbwynt y Tribiwnlys, byddai unrhyw amwyster yn niffiniad y Mesur o'r cysyniad o “ddifrifoldeb” yn creu cryn anhawster wrth i'r Tribiwnlys ystyried a oedd y Comisiwn wedi cymhwyso'r cysyniad hwnnw'n gywir.
15. Ym marn y Tribiwnlys, dylid felly fod yn ofalus iawn cyn gosod yr hidlydd arfaethedig. Yn hytrach na lleihau'r baich ar y Comisiwn, gallai arwain at gynydd diangenrhaid mewn ceisiadau am adolygiad gan y Tribiwnlys o benderfyniadau gan y Comisiwn i wrthod ymchwilio i gŵyn, yn enwedig gan y byddai elfen o ansicrwydd ynglŷn â hyd a lled y prawf “difrifoldeb” yn anorfod.
16. Nid yw hynny'n golygu na ddylai difrifoldeb cŵyn (sut bynnag y diffinir y cysyniad hwnnw) ddim fod yn berthnasol pan ddaw'r Comisiwn i benderfynu a ddylid ymchwilio i'r gŵyn honno neu beidio. Mae dyfarniad y Tribiwnlys yn achos TyG/WLT/16/8 yn pwysleisio bod gan y Comisiynydd ddisgresiwn wrth wneud penderfyniad felly, a bod

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

ganddi'r hawl (yn wir ei bod hi dan ddyletswydd) i ystyried ystod o ffactorau perthnasol cyn dod i benderfyniad:

“Nid yw'r Mesur ei hun yn rhoi unrhyw arweiniad ynglŷn â pha ffactorau y byddai disgwyl i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio. Ni fyddai'n iawn i'r Tribiwnlys honni darparu rhestr gynhwysfawr. Mae'r amgylchiadau'n amrywio o achos i achos. Yn gyffredinol, mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion penodol (cyn belled nad yw'n anwybyddu rhai sy'n amlwg yn berthnasol) a phenderfynu faint o bwysau i'w roi ar y ffactorau hynny.” (paragraff 27)

“Er mai mater i'r Comisiynydd oedd barnau pa rai yw'r ffactorau (hy y rhai perthnasol yn yr achos penodol), mae materion megis difrifoldeb cymharol y methiant honedig, ansawdd y dystiolaeth o fethiant ac unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau yn ymddangos bron yn sicr o fod yn berthnasol.” (paragraff 34).

17. Mae Polisi Gorfodi presennol y Comisiynydd eisoes yn cynnwys difrifoldeb testun y gŵyn fel un o'r ffactorau y bydd y Comisiynydd yn ystyried wrth benderfynu a fydd hi'n cynnal ymchwiliad statudol i gŵyn ai peidio:

“4.16 Cedwir hawl y Comisiynydd i ystyried cynnal ymchwiliad statudol i'r gŵyn yn syth os yw amgylchiadau unigol y gŵyn yn gofyn am hynny. Gall amgylchiadau felly gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, amgylchiadau fel y canlynol:

- **cwyn yn codi amheuaeth o fethiant difrifol i gydymffurfio**
- cwyn yn gofyn am weithredu brys a
- lle mae tystiolaeth ddiamheuol eisoes wedi ei darparu gan yr achwynydd fel rhan o'r gŵyn.”

18. Nid yw'n glir, felly, sut y byddai gosod hidlydd statudol “difrifoldeb” ar hawl y Comisiwn i ymchwilio i gwynion yn ychwanegu at y pŵer sydd eisoes gan y Comisiynydd i wrthod ymchwilio i gŵyn ar sail diffyg difrifoldeb. Yn wir, gellir dadlau y byddai gwneud hynny, ac felly rhoi pwyslais arbennig ar un ffactor perthnasol, gyfyngu ar allu y Comisiwn i gymryd ffactorau perthnasol eraill i ystyriaeth neu i benderfynu

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

ymchwilio i achos nad oedd, ynddo'i hunan, yn cyrraedd trothwy "difrifoldeb" y Mesur ond a oedd, am ryw reswm arall, yn cyfiawnhau cynnal ymchwiliad.

19. Nid yw'r Tribiwnlys, trwy gyflwyno'r sylwadau hyn am werth ac ymarferoldeb gosod hidlydd "difrifoldeb" ar gŵynion, yn bwriadu codi amheuan am fodolaeth cwestiwn pwysig sydd angen ei ystyried. Rydym eisoes wedi derbyn tystiolaeth oddi wrth staff y Comisiynydd am faich cynnal ymchwiliadau statudol o dan adran 71 o'r Mesur. Roedd y dystiolaeth honno'n gyson â'r pwynt a wneir ym mharagraff 211 o'r papur ymgynghori, sef bod y broses o gynnal ymchwiliad statudol (yn unol â'r weithdrefn a ragnodir yn Atodlen 10 i'r Mesur) yn medru bod yn araf ac yn feichus.

20. Er bod y cyfiawnhâd dros weithdrefn mor gaeth i'w gael, mae'n debyg, yn y ffaith y gall ymchwiliad arwain at gamau gorfodi difrifol fel cosb sifil, mae'n ymddangos na arweiniodd unrhyw ymchwiliad gan y Comisiynydd, hyd yn hyn, at unrhyw gam mwy difrifol nac atgoffa'r corff dan sylw o'i ddyletswyddau. Mae hyn yn awgrymu y gall cwynion gael eu datrys yn effeithiol, mewn llawer o achosion, trwy ddulliau mwy anffurfiol a hyblyg na'r rhai sy'n cael eu rhagnodi gan Atodlen 10. Teimla'r Tribiwnlys y dylid adolygu, felly, y ffordd y rheolir ymchwiliadau ffurfiol i gŵynion gan yr Atodlen honno, gyda golwg ar roi mwy o ddisgresiwn i'r Comisiwn i deilwra ei ddull o ymchwilio i ofynion achosion arbennig, er mwyn lleihau'r adnoddau sydd ar hyn o bryd yn cael eu hawlio gan hyd yn oed y gŵyn fwyaf syml. Rhaid cofio, wrthg gwrs, bod gan unrhyw gorff sy'n teimlo bod canlyniad ymchwiliad statudol wedi bod yn anheg yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

Ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd y Tribiwnlys cyn medru dod ag unrhyw gais neu apêl gerbron y Tribiwnlys (Cwestiynau 38 a 39)

21. Hyd yma, ni fu baich achosion y Tribiwnlys yn ddigon i roi pwysau afresymol ar adnoddau'r Tribiwnlys. Fel yr esboniwyd uchod (paragraff 2) daeth yr achos cyntaf at y Tribiwnlys yn Ebrill 2016. Dim ond 11 o achosion a ddaeth i law hyd yn hyn – cyfartaledd o tua un achos bob 7 wythnos. Ond gan mai trefn newydd sbon yw trefn Safonau, gan gynnwys apêlau at y Tribiwnlys, gellid disgwyl y bydd nifer yr achosion yn cynyddu ac y gallai hynny arwain at sefyllfa lle byddai gallu'r Tribiwnlys i ddelio ag achosion ddod o dan bwysau. Rhaid cofio hefyd bod achosion – pob un ohonynt yn her o ryw fath i benderfyniad gan y Comisiynydd – yn gosod baich gweinyddol ar y

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

Comisiynydd (neu'r Comisiwn). Derbyniwn, felly, y gallai gosod rhyw fath o hidlydd ar y gallu i ddod ag achos gerbron y Tribiwnlys fod o werth ymarferol yn y dyfodol.

22. Mae'r Mesur eisoes yn gosod hidlydd ar yr hawl i ddod ag un fath o achos gerbron y Tribiwnlys. Ni ellir gwneud cais i'r Tribiwnlys o dan adran 103 o'r Mesur heb ganiatâd y Tribiwnlys. Natur cais o dan adran 103 yw ei fod yn gais am adolygiad o benderfyniad gan y Comisiynydd i wrthod cynnal ymchwiliad statudol i gwyn fod corff wedi methu â chydymffurfio â Safon. Rhaid i'r Tribiwnlys ddelio â chais yn unol â'r un egwyddorion a gymhwysir gan yr Uchel Lys mewn perthynas â cheisiadau am adolygiad barnwrol. Mae'r gofyniad am ganiatâd cyn medru dod ag achos yn adlewyrchu trefn yr Uchel Lys mewn achos felly. Os bydd y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i gais, cyfyngir yr ystyriaeth honno i gyfreithlondeb penderfyniad y Comisiynydd – a yw hi wedi gweithredu tu fewn i'r pwerau a roddwyd iddi gan y Mesur. Mae ymchwiliad y Tribiwnlys yn ymchwiliad cyfreithiol, felly. Os yw'n ymddangos bod y Comisiynydd wedi gweithredu o fewn ei phwerau, dyna ddiwedd y mater. Nid oes gan y Tribiwnlys hawl i gwestiynu sylwedd penderfyniad y Comisiynydd.
23. Seilir y prawf y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys ei gymhwyso wrth ystyried rhoi caniatâd ar arferiad yr Uchel Lys. Rhaid i'r ceisydd dangos naill ai “disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo” neu “bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.” Gwneir y penderfyniad i roi neu i wrthod caniatâd gan Lywydd y Tribiwnlys (neu, gyda chydysniad y Llywydd, aelod arall o'r Tribiwnlys sydd â chymhwyster yn y gyfraith) ac os bydd caniatâd yn cael ei wrthod mae gan y ceisydd yr hawl i ofyn am i'r penderfyniad hwnnw gael ei ail-ystyried gan banel o aelodau'r Tribiwnlys.
24. Hyd yma, derbyniwyd saith o geisiadau dan adran 103. Gwrthodwyd caniatâd i wneud y cais mewn pedwar ohonynt. O'r tri arall, penderfynwyd un o blaid y ceisydd ar ôl gwrandawriad. Mewn un arall, derbyniodd y Comisiynydd nad oedd y dehongliad o'r Mesur y seiliwyd ei phenderfyniad hi arno yn gywir a thynnwyd y cais yn ôl trwy gytundeb. Mae'r trydydd eto heb ei benderfynu. Ni chafwyd cais am ail-ystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys i wrthod caniatâd yn unrhyw un o'r pedwar achos perthnasol. Mae'n ymddangos, hyd yma, bod y drefn o osod gofyniad i gael caniatâd y Tribiwnlys cyn dod ag achos perthnasol yn gweithio'n foddhaol.
25. Mae'r papur ymgynghori yn awgrymu y gellid ymestyn y drefn a geir mewn perthynas â cheisiadau o dan adran 103 i gynnwys y mathau eraill o gais y gellid eu gwneud i'r

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

Tribiwnlys. Ond rhaid cofio bod natur ceisiadau i'r Tribiwnlys yn amrywio ac nad yw nodweddion cais o dan adran 103 yn berthnasol i bob un o'r ceisiadau posibl eraill.

26. Y math o geisiadau sy'n ymdebygu fwyaf i gais o dan adran 103 yw ceisiadau o dan adran 58 sef apêl i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan y Comisiynydd nad yw gosod Safon benodol ar gorff yn afresymol nac yn anghymesur. Ond rhaid sylwi ar y gwahaniaeth technegol rhwng *adolygiad* o dan adran 103 ac *apêl* o dan adran 58. Mae'r naill yn ymwneud a *chyfreithlondeb* penderfyniad y Comisiynydd. Mae'r llall yn ymwneud â *chywirdeb* penderfyniad y Comisiynydd. Ond nid yw'n glir, yn ymarferol, pam y dylai gallu ceisydd i herio penderfyniad y Comisiynydd fod mor wahanol pan fo'r Comisiynydd, yn y ddwy sefyllfa, yn arfer swyddogaethau mor debyg – sef cymhwyso ei barn arbenigol mewn maes y mae hi'n arfer swyddogaethau statudol eang ynddo. Yr unig esboniad amlwg am y gwahaniaeth yw'r ffaith fod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, pan basiwyd y Mesur, yn ddarostyngedig i amod y dylai unrhyw Fesur a fyddai'n gosod dyletswyddau ar gorff gynnwys hawl i'r corff hwnnw “to challenge those duties, as they apply to that person, on grounds of reasonableness and proportionality.”
27. Gan nad yw'r cyfyngiad hwnnw bellach yn bod, fe fyddai'n bosibl ail-lunio'r hawl i herio penderfyniad i osod Safon ar gorff mewn termau tebyg i'r hawl i herio penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn, hynny yw, fel hawl i ofyn am adolygiad, sef yr hawl a geir o dan adran 103. Pe bai hynny'n digwydd, byddai gosod hidlydd tebyg i'r un sydd yn adran 103(4) yn gam naturiol. Ond hyd yn oed pe bai natur yr her o dan adran 58 yn aros fel y mae – yn apêl yn hytrach nag yn gais am adolygiad – nid yw'n ymddangos y byddai unrhyw anhawster mewn cymhwyso'r un fath o ofyniad am ganiatâd ac a geir yn adran 103(4).
28. Mae'r ceisiadau posibl eraill i'r Tribiwnlys i gyd yn ymwneud ag ymchwiliadau statudol ac, o ran eu natur, i gyd yn apêlau yn hytrach nag yn adolygiadau. Maent yn cynnwys, er enghraifft, apêlau gan gorff yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd bod y corff hwnnw wedi methu â chydymffurfio â Safon. Natur apêl yw ei fod yn ystyried cywirdeb (yn hytrach na chyfreithlondeb) y penderfyniad. Disgwylir i ymchwiliad y Tribiwnlys fod yn fwy eang, mewn achos felly, gan gynnwys pwysu a mesur tystiolaeth ffeithiol a hyd yn oed, o dan rai amgylchiadau, ystyried tystiolaeth newydd. O ganlyniad, gallai'r dystiolaeth a fyddai gan y Tribiwnlys, ar y cychwyn, wrth ystyried siawns yr apêl o lwyddo fod yn anghyflawn. Gall ystyried apêl gynnwys, mewn egwyddor, ystyried ystod eang o ddeunyddiau, gyda rhai ohonynt heb fod wedi'u casglu, hyd yn oed, pan fyddai

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

cais yn dod i law'r Tribiwnlys. O ganlyniad, gallai gosod amod yn yr un termau â rhai adran 103(4) olygu y byddai tasg y Tribiwnlys o bwysu a mesur cryfder apêl fod yn un anodd a gallai'r prawf gael ei weld yn un anymarferol.

29. Nid yw'n anghyffredin, wrth gwrs, bod hawl i apelio i lys neu dribiwnlys yn cael ei gyfyngu. Ni cheir apelio o'r Llys Sirol i'r Llys Apêl heb ganiatâd y naill lys neu'r llall, ac mae'r trothwy ar gyfer rhoi caniatâd (rheol 52.3(6) o'r Rheolau Gweithdrefn Sifil 1998) yn debyg i'r rhai yn adran 103(4) o'r Mesur (er bod y Rheolau'n sôn am "real prospect of success" yn hytrach na "reasonable prospect of success" fel y gwna'r Mesur). Ar y llaw arall, nid oes angen cael caniatâd i apelio o'r Llys Ynadon i Lys y Goron, nac i apelio o bendefyniad awdurdod lleol i Dribiwnlys Anghenion Addysgiadol Arbennig Cymru.
30. Mae yna le i ddadlau, felly, bod gosod hidlydd sy'n cynnwys yr angen i bwysu a mesur y tebygrwydd y bydd yr apêl yn llwyddo yn fwy priodol lle bo'r apêl yn ymwneud a chwestiynau o egwyddorion cyfreithiol a chywirdeb ymresymu nac ar gyfer achosion lle y gall casgliadau ffeithiol fod yn allweddol.
31. Hyd yma, ni ddaeth unrhyw apêl i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd mewn perthynas ag ymchwiliad statudol. Nid oes, felly, unrhyw dystiolaeth bod angen ymarferol i osod hidlydd ar yr hawl i apelio mewn achos felly. Mae profiad ehangach aelodau'r Tribiwnlys yn awgrymu, hefyd, y gall hidlydd felly achosi cymhlethdodau annisgwyl ac anfwriadol, trwy gynhyrchu llawer mwy o geisiadau am adolygiad gan y Tribiwnlys o'i benderfyniad i wrthod caniatâd, gan gymhlethu ac oedi datrysiad yr anghydfod.
32. Dylid hefyd nodi bod gan y Tribiwnlys eisoes bwerau cryf i ddod ag achosion gwan i derfyn, unwaith y bydd ganddo digon o wybodaeth am yr achos i fedru gwneud hynny'n deg. O dan reol 28 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 gall y Tribiwnlys, o'i wirfodd neu ar gais y Comisiynydd, ddileu achos ar unrhyw adeg os yw'n ymddangos nad oes seiliau rhesymol iddo neu ei fod yn wacsaw neu'n flinderus.
33. Nid yw'r Tribiwnlys wedi'i argyhoeddi, felly, o'r angen i osod hidlydd ar hawl achwynydd i apelio i'r Tribiwnlys, lle bo'r apêl yn un o dan adrann 95 neu 99 o'r Mesur neu o dan baragraffau 9 neu 10 o Atodiad 10 iddo. Ym marn y Tribiwnlys, mae ei bwerau o dan reol 28 o Reolau'r Tribiwnlys eisoes yn ei alluogi i ddod ag achosion anobeithiol i ben cyn iddynt osod baich gweinyddol ormodol ar y Tribiwnlys nac ar y Comisiynydd.

Crynhoad

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

34. Ym marn y Tribiwnlys, felly:

- (i) Byddai trosglwyddo'r swyddogaeth o roi hysbysiadau cydymffurfio o'r Comisiynydd i Lywodraeth Cymru, gan gadw'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn cynnwys yr hysbysiad, yn gofyn am ystyried darpariaethau ychwanegol yn y Mesur er mwyn tanlinellu annibyniaeth y Tribiwnlys;
- (ii) Dylid cadw'r gallu i amrywio'r Safonau sy'n gymwys i wahanol gyrff mewn ffordd sy'n ymateb i broffeil ieithyddol yr ardal berthnasol;
- (iii) Ni fyddai gosod hidlydd "difrifoldeb" ar yr hawl i wneud cŵyn i'r Comisiynydd yn ychwanegu at ddisgresiwn presennol y Comisiynydd i wrthod cychwyn ymchwiliad statudol i gŵyn ar sail diffyg difrifoldeb testun y gŵyn a gallai osod hidlydd statudol felly godi anhawsterau yng nghylch y diffiniad o "ddifrifoldeb" ac arwain at gynydd mewn ceisiadau i'r Tribiwnlys am adolygiad o benderfyniadau'r Comisiwn o dan adran 103 o'r Mesur, wrth iddo weithredu'r hidlydd hwnnw;
- (iv) Dylid ystyried sut i roi mwy o ryddid i'r Comisiwn deilwra'r broses o gynnal ymchwiliad statudol i gŵyn er mwyn medru ymateb yn fwy hyblyg i nodweddion achosion unigol;
- (v) Mae'r drefn o'i gwneud yn orfodol i gael caniatâd y Tribiwnlys cyn medru gwneud cais am adolygiad, o dan adran 103, o benderfyniad y Comisiynydd i wrthod cynnal ymchwiliad statidol i gŵyn yn gweithio'n dda; nid oes rheswm pam na ellid ymestyn y gofyniad hwnnw i apelau i'r Tribiwnlys o dan 58 (yn erbyn gosod Safon benodol);
- (vi) Dylid, wrth wneud hynny, ystyried newid natur cyfreithiol technegol cais o dan adran 58 o fod yn apel yn erbyn y pendefyniad i fod yn gais am adolygiad ohono, fel yn achos cais o dan adran 103;
- (vii) Nid oes, ar hyn o bryd, unrhyw dystiolaeth o angen am hidlydd a fyddai'n gorfodi achwynydd i gael caniatâd y Tribiwnlys cyn apelio o dan adrannau 95, 99 a pharagraffau 9 a 10 o Atodlen 10 o'r Mesur; gallai gosod hidlydd felly greu cymhlethdodau annisgwyl anfwriadol.

Ar ran Tribiwnlys y Gymraeg

Fersiwn Terfynol 31.10.2017

Keith Bush CF

Llywydd y Tribiwnlys

Hydref 2017